LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO'R YSTAFELLOEDD DARLLEN, CASGLIADAU A GWASANAETHAU

1. Tocyn Darllen a Mynediad i'r Ystafelloedd Darllen

- Rhaid cael Tocyn Darllen dilys i gael mynediad i'r Ystafelloedd Darllen.
- Caniateir Tocyn Darllen i ymwelwyr 16 oed a throsodd. Gall ymwelwyr o dan 16 oed wneud cais i ymweld â'r Ystafelloedd Darllen o dan amodau arbennig.
- Dylid dangos eich Tocyn Darllen i'r staff diogelwch yn y Prif Gyntedd bydd angen iddynt hefyd ei sganio.
- Dylid hysbysu'r Llyfrgell o unrhyw newid yn eich enw neu gyfeiriad, neu os ydych wedi colli eich tocyn darllen.
- Ni chaniateir bagiau personol yn yr Ystafelloedd Darllen; darperir bagiau tryloyw ar gyfer cludo eiddo personol a gliniaduron i'r Ystafelloedd Darllen.
- Ni chaniateir cotiau allanol na chotiau glaw yn yr Ystafelloedd Darllen.
- Ni chaniateir bwyd na diod yn yr Ystafelloedd Darllen.
- Ni chaniateir unrhyw ddyfeisiadau recordio neu ffilmio heblaw derbynnir caniatâd o flaen llaw.
- Dylid cydymffurfio â gweithdrefnau argyfwng, gan ddilyn cyfarwyddiadau staff mewn achos o dân neu ymarfer tân.

2. Ystyriaeth o eraill

- Dylid trin staff a defnyddwyr eraill gyda chwrteisi a pharch ar bob achlysur.
- Dylai ffonau symudol fod wedi eu diffodd neu yn ddistaw (silent mode) ac ni ddylid gwneud na derbyn galwadau.

- Wrth wylio a/neu wrando ar gynnwys mae'n ofynnol i ddefnyddwyr wisgo clustffonau i sicrhau nad ydynt yn tarfu ar ddefnyddwyr eraill.

3. Defnyddio'r Casgliadau

- Rhaid darllen unrhyw ddeunydd yn yr ystafelloedd priodol; ni chaniateir mynd â deunydd allan o'r ystafelloedd priodol.

- Ni ddylid pasio deunydd sydd wedi ei roi allan yn eich enw i ddarllenydd arall.

- Mae defnyddwyr sy'n dymuno edrych ar eitemau nad ydynt ar y silffoedd agored yn yr Ystafelloedd Darllen yn cytuno i roi rhybudd digonol (fel arfer drwy gais catalog) er mwyn edrych ar eitemau. Mae'r amser sydd ei angen i ddosbarthu eitemau (h.y. cyfnod rhybudd) yn dibynnu ar gategori'r deunydd (e.e. bydd mwyafrif o eitemau print ar gael o fewn yr awr ond bydd deunydd sgrin a sain ar gludwyr gwreiddiol (h.y. heb eu digido) yn medru cymryd hyd at 5 diwrnod gwaith a 15 diwrnod gwaith mewn achosion eithriadol). Mae cofnodion dosbarthu ar gyfer categorïau gwahanol o ddeunydd i'w gweld ar wefan LLGC.

4. Gofal o'r Casgliadau

- Dylid cymryd gofal o bob deunydd pan yn ei ddefnyddio, fel yr amlinellir yn nhaflen Trafod a Defnyddio Casgliadau, a'i ddychwelyd i staff ar ôl gorffen.

- Defnyddiwch bensil yn unig yn Ystafell Ddarllen y De.

- Tra bod y mwyafrif o eitemau casgliadau ar gael i'w gweld yn yr Ystafelloedd Darllen neu ar gyfer archebion reprograffeg heb gyfyngiadau, weithiau mae angen ystyriaethau ychwanegol cyn darparu mynediad i rai eitemau o gasgliadau arbennig. Gall y rhesymau gynnwys, ond heb gael eu cyfyngu i:

    - eitem werthfawr (hen, unigryw, prin) ac arwyddocâd diwylliannol uchel, a/neu mewn cyflwr ffisegol gwael a bod y risg o niwed pellach drwy drafod a newid mewn hinsawdd yn arwyddocaol.
    - Mae copi dirprwyol ar gael.
    - Fel rheol, bydd angen darparu copi o ddeunydd clyweledol (gan gynnwys sain) ar gyfer defnyddwyr

5. Copio'r Casgliadau

- Dylai unrhyw gopïogydymffurfio â deddfwriaeth hawlfraint y Deyrnas Unedig. Gall staff yr Ystafelloedd Darllen roi arweiniad ond y darllenydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y creu a'r defnydd o gopïau yn gyfreithlon.

Copïau a ddarperir gan y Llyfrgell

- Mae'r darparu copïau o eitemau o'r holl gasgliadau yn ddibynnol ar statws hawlfraint a fformat y deunydd.

- Os yw eitem dal mewn hawlfraint, rhaid i'r Llyfrgell dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y deilydd hawlfraint cyn medru darparu copïau.

- Os am dderbyn copi o eitem yn ein casgliadau, rhaid talu'r ffi briodol.

Copïau a wneir gan Ddarllenwyr

- Os ydych yn dymuno defnyddio dyfeisiadau personol ar gyfer tynnu lluniau, recordio neu ffilmio i wneud copïau o'n casgliadau, rhaid i chi dderbyn caniatâd gan aelod o staff o flaen llaw (gweler Polisi Defnyddio Camerâu Personol yn yr Ystafelloedd Darllen). Ni chaniateir sganwyr.

6. Amodau yn gysylltiedig â Deddfwriaeth Gwarchod Data

- Mae'r darllenydd cofrestredig yn ymgymryd â i beidio gadael ei (h)ymchwil gael ei ddefnyddio gan berson neu sefydliad arall i gefnogi llwybr neu penderfyniadau mewn perthynas â deiliaid data (h.y. unigolion penodol adnabyddir o fewn y casgliadau tra maent dal yn fyw, (gan gymryd parhad-bywyd yn 100 mlynedd) nac mewn ffordd niweidiol sylweddol a trallod sylweddol, gall neu yn debygol o achosi iddynt.

- Na fydd y darllenydd yn gwneud canlyniadau ei (h)ymchwil ar gael mewn unrhyw fodd fydd yn medru adnabod deiliad data heb ganiatâd ysgrifenedig y deiliad data a rheolydd data.

- Bod y darllenydd yn deall bod fe/hi yn gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliad Cyffedinol Gwarchod Data 2018 mewn perthynas â phrosesu data personol o gasgliadau a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

7. Polisi Defnydd Derbyniol gan Ddarllenwyr

Mae darllenwyr yn cytuno i lynu at bolisi Defnydd Derbyniol o Gyfrifiaduron y Llyfrgell.

8. Toriadau mewn Telerau ac Amodau

Mae ein polisi i ddelio gyda thoriadau mewn telerau ac amodau yn cael ei fanylu mewn dogfen ar wahân dan y teitl 'Toriadau mewn Telerau ac Amodau defnyddio Ystafelloedd Darllen, Casgliadau a Gwasanaethau'.

9. Gwybodaeth Breifat

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth bersonol at ddibenion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwasanaeth, swyddogaeth neu weithgaredd gan y Llyfrgell. Mae Datganiad Preifatrwydd y Llyfrgell yn esbonio'r math o ddata personol a gedwir, y prosesau a'r rhesymau pam y cedwir y data. Ceir mwy o wybodaeth: https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/rheoliad-cyffredinol-gwarchod-data/

Adolygwyd a diweddarwyd Rhagfyr 2019